## D. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYFIAWNDER

Datblygwyd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gyfiawnder yn wreiddiol drwy ymgynghori â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, cyn cyflwyno Deddf Bil (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("Deddf Plant Cymru"). Mae'n adlewyrchu'r effaith fwyaf tebygol ar y system gyfiawnder. Ni allwn ddarogan yr union effaith oherwydd nad oes cynsail yn y Deyrnas Unedig (DU) i ddiddymu'r amddiffyniad, ac oherwydd ein harferion adrodd a chofnodi presennol. Mae'r asesiad hwn wedi'i wneud gan ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Ailaseswyd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gyfiawnder ym mis Medi 2020 yn dilyn rhoi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Plant Cymru ym mis Mawrth 2020. Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried a fydd yna unrhyw effeithiau posibl na nodwyd eisoes yn ystod y cyfnod o weithgarwch gweithredu hyd y daw Adran 1 (dileu amddiffyniad cosb resymol) Deddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022.

Gan na nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol newydd ni fydd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gyfiawnder yn cael ei rannu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eto. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i rannu data achosion, yn ôl yr angen, ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Os bydd dadansoddiad pellach yn cynhyrchu gwybodaeth wahanol mewn perthynas â'r hyn oll sydd wedi'i nodi yn yr asesiad hwn o'r effaith ar gyfiawnder, efallai y bydd angen ail werthuso'r effaith ar y system gyfiawnder.

## 1. Gwybodaeth gyffredinol

1.1. Darparwch a) fanylion cyswllt eich swyddog arweiniol ar gyfer gwerthuso'r costau neu'r arbedion a;

b) yr arweinydd Polisi Cyfiawnder os yw'n hysbys.

| |
|---|
| |

1.2. Yn fras, beth yw eich cynnig? (dim mwy na hanner tudalen) *(Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu i helpu swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddeall bwriad y newid arfaethedig er mwyn gallu rhoi sylwadau llawn ar yr effeithiau posibl*).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau plant, sy'n cynnwys rhoi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol drwy ddileu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwnnw wedi'i nodi yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn sgil hynny yn ein Strategaeth Genedlaethol “Ffyniant i Bawb”.

Ym mis Mawrth 2020 derbyniodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (“Deddf Plant Cymru”) Gydsyniad Brenhinol a bydd Adran 1 (dileu amddiffyniad cosb resymol) yn dod i rym ym mis Mawrth 2022. Yn ystod y cyfnod rhwng y Cydsyniad Brenhinol (Mawrth 2020) a dechrau Adran 1 mae Llywodraeth Cymru’n canolbwyntio ar sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu’n ymarferol a dichonadwy.

Yr amcan cyffredinol yw cefnogi hawliau plant a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â goblygiadau rhyngwladol ar hawliau dynol. Felly, bydd gwahardd cosbi plant yn gorfforol gan rieni yn mynd i'r afael ar agwedd ar y gyfraith sydd wedi dyddio ac sy'n groes i hawl y plentyn i gael ei ddiogelu rhag pob math o gosbau corfforol, ni waeth pa mor ysgafn.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod cosb gorfforol yn gysylltiedig ag ymddygiad gwell mewn plant nac ychwaith ag effeithiau cadarnhaol ar eu canlyniadau datblygiadol yn y cyfnod hir. I'r gwrthwyneb, mae casgliad digonol o dystiolaeth fod dulliau cadarnhaol o fagu plant yn allweddol i sicrhau canlyniadau llwyddiannus i blant, sy'n cynnwys datblygiad cymdeithasol, hunan-barch ac iechyd meddwl da.

Mae Llywodraeth Cymru am gyfleu neges glir ddiamwys nad yw cosbi plant yn gorfforol yn dderbyniol.

Mae Llywodraeth Cymru am gefnogi'r newid mewn agweddau ac ymddygiad yng Nghymru ac am annog rhieni i reoli ymddygiad eu plant heb orfod eu cosbi'n gorfforol. Mae Deddf Plant Cymru yn rhan o becyn ehangach o gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi plant a'u rhieni. Mae hynny'n cynnwys ein hymgyrch ‘Magu plant. Rhowch amser iddo’ a gallu cael hyd i gyngor wyneb yn wyneb gan ymwelwyr iechyd a thrwy ein rhaglenni i deuluoedd, sef Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Pan fydd Adran 1 o’r Ddeddf yn dod i rym ym mis Mawrth 2022 bydd diddymu'r amddiffyniad cosb resymol yn sicrhau sylfaen fwy cyson i allu cefnogi rhieni i fabwysiadu dulliau cadarnhaol o ddisgyblu plant.

Er na ellir profi cysylltiadau achosol, yr hyn a awgrymwyd gan y rheini sydd wedi edrych ar wledydd eraill lle mae'r newid wedi digwydd yw bod gwahardd cosb gorfforol yn gysylltiedig â llai o gefnogaeth o blaid cosbi corfforol. Mae'r gwersi o wledydd eraill sydd wedi deddfu i wahardd cosb gorfforol yn awgrymu y gall gweithredu'n llwyddiannus, ar y cyd â chodi ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd addysgu i gefnogi rhieni, gan arwain at newidiadau cyflymach i agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd.

Er mai troseddau troseddol yw ymosod cyffredin a churo, maent hefyd yn bodoli yn y gyfraith sifil. Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022 ni fydd cosbi plentyn yn gorfforol yn cael ei gyfiawnhau mewn unrhyw achos llys troseddol neu sifil o hynny allan.

Darpariaeth yn Neddf Plant Cymru yw bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r newid yn y gyfraith cyn y daw i rym ym mis Mawrth 2022. Cafodd yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth ar gyfer Deddf Plant Cymru ei hoedi'n swyddogol tra'r oedd holl waith cyfathrebu Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar yr ymateb i argyfwng Covid-19. Mae'r ymgyrch godi ymwybyddiaeth wedi'i hailgynllunio a bydd yn ymgyrch aml-gyfrwng wedi'i thargedu a fydd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd penodol yn ogystal ag amrywiaeth o waith hysbysebu a Chysylltiadau Cyhoeddus. Bydd gwaith codi ymwybyddiaeth yn parhau am gyfnod ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym ym Mawrth 2022. Bydd yr ymgyrch hon yn hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru am y newid yn y gyfraith a sut y gallai effeithio arnyn nhw. Ochr yn ochr â hyn, mae ymgyrch addysg gyhoeddus Llywodraeth Cymru, 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' yn hyrwyddo dulliau rhianta cadarnhaol yn cynnwys dewisiadau gwahanol i gosb corfforol. Mae'r ymgyrch hon wedi'i hanelu at rieni plant 0-7 oed ar hyn o bryd, ond bydd yr ystod oedran yn cael ei ehangu i 0-18 oed erbyn haf 2021. Wrth ddatblygu a darparu'r ymgyrch addysg gyhoeddus bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i godi ymwybyddiaeth ymwelwyr o'r tu allan i Gymru.

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau eglurder ynghylch prosesau'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, a sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i achosion a gofnodir o ymosodiad gan riant ar blentyn. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Gweithredu Strategol a'r pedair ffrwd waith ganlynol:

- Y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Bydd y grwpiau hyn yn ystyried sut i fonitro effaith y Ddeddf; a oes angen cyflwyno unrhyw brosesau, canllawiau neu hyfforddiant yn sgil diddymu'r amddiffyniad a pha gymorth ychwanegol, os o gwbl, fydd ei angen ar gyfer rhieni, yn cynnwys drwy gynllun dargyfeirio addas.

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn darparu cyngor ac argymhellion ar opsiynau ar gyfer defnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a datblygu cynllun dargyfeirio addas, a allai ddarparu ymyriadau i gefnogi newid ymddygiad a dargyfeirio unigolion o erlyniad (lle bo'n briodol).

1.3. Nodwch deitlau'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Sut ydych chi'n disgwyl i ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth (newydd) hon gael eu rhoi ar waith?

Deddfwriaeth berthnasol:-

- Deddf Plant 2004, Adran 58;
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, Adran 39;
- Deddf Troseddau yn erbyn y Person 1861;
- Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933, Adran 1;
- Adran 548 Deddf Addysg 1996.

Bydd Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru, sy'n dileu amddiffyniad cosb resymol, yn dod i rym ym mis Mawrth 2022.

1.4. Nodwch erbyn pa ddyddiad y byddwch yn disgwyl a) i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym, b) y dyddiad y bydd yr effaith gyntaf a ragwelir ar y system gyfiawnder yn digwydd.

Bydd y newid deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn dod i rym ar 21 Mawrth 2022.

1.5. Os ydych yn diwygio neu'n cyflwyno trosedd, sancsiwn neu gosb, ar ba rai o'r grwpiau canlynol fydd y cynnig yn effeithio, ac ym mha amgylchiadau y bydd hynny'n digwydd? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- [x] Unigolion
- [ ] Sefydliadau Preifat (e.e. Busnesau)
- [ ] Sefydliadau Cyhoeddus (e.e. Adrannau'r Llywodraeth)

Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ar 21 Mawrth 2022, ni fydd amddiffyniad cosb resymol ar gael yng Nghymru o hynny ymlaen ar gyfer rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a'r rheini sy'n gweithredu *in loco parentis* sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod neu guro plentyn dan eu gofal.

1.6. A yw eich deddfwriaeth yn effeithio ar Gymru yn unig neu ydych chi'n cydweithio â gweinyddiaethau eraill? Ticiwch bob un sy'n berthnasol a darparwch fanylion bras fel sy'n briodol, gan gynnwys a fydd eich cynnig yn creu cyfreithiau gwahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon.

Nodwch, ac eithrio'r tribiwnlysoedd datganoledig, fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweinyddu'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn unig. Siaradwch yn uniongyrchol ag uned ddatganoli'r Weinyddiaeth Gyfiawnder os ydych yn rhagweld y gallai eich cynnig effeithio ar y llysoedd neu'r carchardai yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

- ☒ Cymru yn unig
- ☐ Lloegr
- ☐ Yr Alban
- ☐ Gogledd Iwerddon
- ☐ Eraill (Nodwch)

Mae Adran 58 o Ddeddf Plant Cymru 2004 wedi cael gwared ar argaeledd amddiffyniad cosb resymol i rieni neu oedolion sy'n gweithredu in loco parentis os bydd y sawl sydd wedi'i gyhuddo o glwyfo, achosi niwed corfforol difrifol; ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol neu gyhuddiad o greulondeb i bersonau o dan 16 oed. Ond, mae amddiffyniad cosb resymol ar gael o hyd i rieni neu oedolion sy'n gweithredu in loco parentis fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiadau o ymosodiad cyffredin.

Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ar 21 Mawrth 2022 ni fydd amddiffyniad cosb resymol ar gael o hynny ymlaen ar gyfer rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod neu guro *yng Nghymru.* Byddai'r amddiffyniad ar gael o hyd *yn Lloegr.*

1.7. Os gallai eich deddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol ar y rheini sy'n ymweld â Chymru neu eraill nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru, neu os yw eich deddfwriaeth yn wahanol iawn i'r ddeddfwriaeth sydd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;-

a) pa drefniadau ydych chi wedi'u gwneud i sicrhau eich bod yn codi ymwybyddiaeth yn barhaus o'r ddeddfwriaeth wahanol mewn cysylltiad â'r mater hwn yng Nghymru?

b) beth fydd goblygiadau gweithredu yn erbyn unigolion nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru ar yr asiantaethau gorfodi?

a) Mae'r Ddeddf yn rhan o becyn ehangach o gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi plant a'u rhieni, a chodi ymwybyddiaeth o'n hamcanion mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth .

Yn ystod y craffu yn y Senedd denodd Deddf Plant Cymru sylw eang y cyfryngau, a chafodd ei gofnodi yn y wasg ar lefel y DU, sy'n cynnwys gan y BBC, The Express, The Times, The Telegraph, The Mirror, The Sun, The Guardian, The Daily Mail, ITV, The Metro, iNews, The Daily Star a Huffington Post. Mae'r diddordeb hwn gan y cyfryngau wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth y tu allan i Gymru.

Mae ein hymgyrch "Magu plant. Rhowch amser iddo" yn targedu pawb sy'n gyfrifol am fagu plant hyd at 7 oed. Mae'n anelu at sicrhau bod gan rieni'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i'w helpu i ddefnyddio dulliau cadarnhaol o fagu plant. Gwneir hynny drwy wefan ac ymgyrch ar y cyfryngau sy'n cynnig cynghorion a gwybodaeth am fagu plant. Er bod yr ymgyrch yn targedu rhieni sy'n byw yng Nghymru yn bennaf, mae'r wefan a'r dudalen Facebook ar gael i unrhyw un. Yn ystod y cam gweithredu hwn mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag unigolion allweddol drwy'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta i wella darpariaeth cymorth rhianta cyfredol i rieni. Mae hyn yn cynnwys ehangu ymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo fel ei fod yn cwmpasu ystod eang 0-18 oed.

Darpariaeth arall yn Neddf Plant Cymru yw bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r newid yn y gyfraith cyn y daw i rym ym mis Mawrth 2022. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrch aml-gyfrwng wedi'i thargedu a fydd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd penodol yn ogystal ag amrywiaeth o waith hysbysebu a Chysylltiadau Cyhoeddus. Bydd gwaith codi ymwybyddiaeth yn parhau am gyfnod ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Mawrth 2022. Caiff gofynion pellach sy'n ymwneud â chyfathrebu eu hystyried ochr yn ochr â dulliau i godi ymwybyddiaeth ymwelwyr sy'n dod i Gymru a allai gael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth.

b) Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym Mawrth 2022 bydd yr amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin yn cael ei ddiddymu mewn perthynas â chosbi plentyn yn gorfforol *yng Nghymru*. Bydd y gyfraith yn berthnasol i'r rheini o fewn ffiniau tiriogaethol Cymru, ac felly byddai'n berthnasol i ymwelwyr â Chymru yn ogystal â'r rheini sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.

Fel y nodwyd uchod, byddwn yn ystyried sut y gellir codi ymwybyddiaeth ymwelwyr â Chymru o'r newid arfaethedig yn y gyfraith, fel eu bod yn llai tebygol o dorri'r gyfraith yng Nghymru yn anfwriadol.

Ein dealltwriaeth ni ar sail trafodaethau â'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac yn achos unigolion nad ydynt yn preswylio fel arfer yng Nghymru sy'n cael eu cyhuddo o drosedd o ymosod ar blentyn neu ei guro, yw y byddai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd yn ymdrin ag achosion, yn union yr un ffordd ag y byddent yn ymdrin â honiadau o ymosod neu guro ar hyn o bryd pan fydd unigolion yn byw mewn gwahanol ardaloedd yr heddluoedd. Y ffactor ychwanegol i'w ystyried yw'r ffaith y byddai angen i awdurdodau gorfodi a'r llysoedd fod yn ymwybodol na fyddai amddiffyniad cosb resymol ar gael i rieni (nac i'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis) os oedd y drosedd wedi digwydd yng Nghymru, ond y byddai ar gael yn Lloegr o hyd. Y prif fater, felly, yw ymwybyddiaeth yr heddlu, y farnwriaeth a Gwasanaeth Erlyn y Goron o'r gyfraith yng Nghymru.

1.8. Beth yw'r opsiynau sy'n cael eu hystyried a sut y mae hyn yn newid y sefyllfa bresennol?

| |
|---|
| Amherthnasol |

1.9. Os ydych yn creu cosb neu sancsiwn sifil newydd, pa lys neu dribiwnlys ddylai ddelio â hyn yn eich barn chi?

| |
|---|
| Amherthnasol |

Troseddau a Chosbau a Sancsiynau Sifil

1.10. Pa un o'r canlynol ydych chi'n creu / diwygio? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Sancsiynau Sifil
- ☐ Cosbau Penodedig
- ☐ Gorchmynion Sifil
- ☐ Sancsiynau Troseddol
- ☒ Troseddau Troseddol
- ☐ Eraill (Nodwch)

Mae Adran 58 o Ddeddf Plant Cymru 2004 wedi cael gwared ar argaeledd amddiffyniad cosb resymol i rieni neu oedolion sy'n gweithredu in loco parentis os bydd y sawl sydd wedi'i gyhuddo o glwyfo, achosi niwed corfforol difrifol, ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol neu gyhuddiad o greulondeb i bersonau o dan 16 oed. Fodd bynnag, mae amddiffyniad cosb resymol ar gael o hyd i rieni neu oedolion sy'n gweithredu in loco parentis fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiadau o ymosod cyffredin neu guro.

Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym Mawrth 2022 ni fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael o hynny ymlaen ar gyfer rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod neu guro yng Nghymru.

1.11. Os ydych yn creu trosedd, pa un o'r isod ydyw:

- ☐ Trosedd Ddiannod yn Unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron mainc o ynadon lleyg / barnwr yn unig)
- ☐ Trosedd Neillffordd
- ☐ Trosedd Dditiadwy yn Unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron barnwr a rheithgor)

1.12. Pwy fydd yn gyfrifol am orfodi eich cynnig deddfwriaethol a sut y bydd yn mynd ati i fwrw ymlaen â'r rôl hon? A fydd llai o angen am gamau gorfodi?

Mae Canllawiau Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn mandadu pa fath o droseddau y gall yr heddlu gyhuddo rhywun o'u gwneud, a pha fath o droseddau y gall Gwasanaeth Erlyn y Goron gyhuddo rhywun o'u gwneud. Ar ôl cyhuddo rhywun, Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n gyfrifol am ei erlyn. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnig cyngor ar sut i ymdrin â chyhuddiadau ar gyfer achosion mwy difrifol a chymhleth, yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a Chanllawiau Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar ymdrin â chyhuddiadau. Mae'r heddlu'n cymhwyso'r un egwyddorion wrth benderfynu a ddylid cyhuddo person o drosedd mewn perthynas â'r achosion hynny y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae penderfynu a yw person yn cael ei gyhuddo o drosedd neu beidio yn dibynnu ar a oes tystiolaeth ddigonol o blaid euogfarn debygol realistig, ac a fyddai erlyniad er budd y cyhoedd.

Bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â chyhuddiad ar gyfer yr ymddygiad troseddol dan sylw yn tueddu i gael eu gwneud gan yr heddlu. Os bydd yr heddlu'n dod o hyd i dystiolaeth ddigonol o blaid euogfarn debygol realistig, bydd rhaid iddynt ystyried a yw er budd y cyhoedd i wneud cyhuddiad. Mae'r Coleg Plismona a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnig cyngor ar ffactorau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd y dylid rhoi ystyriaeth iddynt wrth wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cyhuddo neu erlyn rhywun.

1.13. Sawl achos ydych chi'n rhagweld bob blwyddyn? Rhowch fanylion unrhyw dystiolaeth am y tybiaethau y mae'r amcangyfrifon yn seiliedig arnynt.

Rydym yn rhagweld cynnydd ar y cychwyn yn nifer yr achosion sy'n cael eu cofnodi gan unigolion yn y gymuned nad ydynt o bosibl yn glir am yr hyn y dylent neu na ddylent eu cofnodi. O ganlyniad i hynny bydd cynnydd yn nifer yr ymchwiliadau a wnaed gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, disgwylir i hynny leihau yn y tymor canolig i'r tymor hir wrth i dderbynioldeb cosb gorfforol a'r defnydd ohoni leihau.

Mae'n anodd rhagweld nifer yr achosion a fydd yn cael eu cofnodi bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, mae ystadegau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn darparu data ar nifer yr achosion o ymosodiadau cyffredin a churo (o dan gategori bras troseddau Trais heb Anaf, sy'n cynnwys nifer o wahanol droseddau o dan y pennawd hwnnw). Ni nodir oedran y dioddefwr na pherthynas y troseddwr â'r dioddefwr. Nid yw, felly, yn ein galluogi i ddarparu data ar nifer y troseddau lle gallai rhieni fod wedi defnyddio'r amddiffyniad dan sylw. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn darparu data ynghylch troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu o greulondeb i blant (Trais heb Anaf) o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (adran 1). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud â lles plant, ond nid yw wedi'i chyfyngu i gosb gorfforol. Mae'n cynnwys nifer o droseddau eraill, gan gynnwys esgeulustod ac unrhyw beth a allai achosi dioddefaint neu anaf i iechyd. Er bod y ddeddfwriaeth hon yn ehangach o ran ei chwmpas, mae'n cynnig rhywfaint o syniad am y niferoedd. Yn 2016/17 cafodd 426 o droseddau o greulondeb i blant eu cofnodi gan y pedwar heddlu yng Nghymru. (Tablau sy'n cynnwys data agored o Ardaloedd yr Heddluoedd ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu o'r flwyddyn sy'n dod i ben o Fawrth 2013 ymlaen). Nid ydym yn ymwybodol o ddata sy'n darparu'r nifer o adroddiadau a gyflwynwyd i'r heddlu ynghylch y math hwn o drosedd.

Cynhaliodd pedwar llu heddlu Cymru, mewn cydweithrediad â'r PLU, archwiliad ôl-weithredol o droseddau cofnodedig yn ymwneud ag Ymosodiad Cyffredin a Chreulondeb i Blant yn cwmpasu cyfnod o 19 mis. Hidlodd yr heddlu yr wybodaeth gan ddefnyddio termau penodol, lle'r oedd y troseddwr yn oedolyn a'r dioddefwr yn blentyn, a bod y bwlch oedran rhwng y ddau yn fwy na 3 blynedd.

Aethant ati i ddadansoddi sampl o'r canlyniadau â llaw i weld pa gyfran oedd yn gysylltiedig â chosb resymol, a nodi bod un o bob saith/wyth yn gysylltiedig, yn dibynnu ar y llu heddlu. Gan ddefnyddio'r sampl amcangyfrifwyd bod tua 274 o achosion o gosb resymol yn cael eu hysbysu i'r heddlu yng Nghymru bob blwyddyn.

Er ein bod wedi gallu cydweithio â'r heddluoedd yng Nghymru i ddod o hyd i'r data gorau posibl o ran nifer y troseddau sy'n ymwneud â chosbi corfforol gan riant ar lefel 'cosb resymol', nid yw'r data hynny'n cyfleu'r nifer debygol o achosion a fyddai'n mynd i'r llys – gan y byddai nifer o'r rheini'n debygol o gael eu datrys drwy NFA a'r tu allan i'r llys.

Nid yw data'n cael eu cyhoeddi ar y nifer o weithiau y mae'r amddiffyniad yn cael ei ddefnyddio. Yr unig ddata sydd ar gael yw'r data hynny yn yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2007 gan Lywodraeth y DU o Adran 58 o Ddeddf Plant Cymru 2004. Fel rhan o'r adolygiad, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi gofyn i bob un o'r 43 o ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron anfon manylion am achosion lle cafodd amddiffyniad cosb resymol ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod dan sylw . Er nad oedd yr adolygiad yn un hollgynhwysol, daeth o hyd i 12 o achosion rhwng Ionawr 2005 a Chwefror 2007 lle cafodd amddiffyniad cosb resymol ei ddefnyddio – a phob un wedi arwain at ryddfarn neu at ollwng yr achos. O'r 12 achos hyn, gwelwyd y canlynol:

- 4 lle cafodd ei ddefnyddio'n benodol fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin;
- 4 lle'r oedd y diffynnydd wedi'i gyhuddo o ymosod cyffredin, ac na ddefnyddiwyd yr amddiffyniad yn benodol ond lle gallai wedi bod yn ffactor yn y dyfarniad dieuog neu'r penderfyniad i ollwng yr achos; a,
- 4 lle cyflwynwyd cosb resymol gan y diffynnydd er gwaetha'r ffaith nad oedd yn cyfrif fel amddiffyniad cyfreithiol yn erbyn y cyhuddiad o greulondeb at blentyn.

Mater arall sy'n ymwneud â mesur i ba raddau y mae amddiffyniad cosb resymol wedi'u defnyddio gan rieni yw'r ffaith nad yw cosb, sy'n cael ei hystyried yn un 'resymol', yn ymddygiad troseddol ar hyn o bryd. Nid yw gweithredoedd nad ystyrir eu bod yn ymddygiad troseddol yn cael eu hadrodd i'r heddlu fel arfer; nid ydynt yn arwain at gyhuddo pobl ac nid

ydynt fel canlyniad yn cael eu cofnodi'n gyhoeddus. Os bydd ymddygiad o'r fath yn cael ei adrodd i'r heddlu, a bod yr ymddygiad hwnnw'n gosb resymol, ni fyddai'r unigolyn yn cael ei gyhuddo ac felly ni fyddai'r achos yn cael ei ddwyn ger bron Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Gellid dysgu rhai gwersi o'r profiad yn Seland Newydd, gan fod rhywfaint o debygrwydd rhwng Seland Newydd a Chymru. Mae'n wlad fach (poblogaeth o tua 4 miliwn) a chanddi system gyfreithiol sy'n deillio o Loegr. Mae Seland Newydd wedi dileu amddiffyniad tebyg i'r un sy'n cael ei gynnig yn y ddeddfwriaeth hon. Daeth Deddf Diwygio Troseddau (Adran 59 a Amnewidiwyd) *[Crimes (Substituted Section 59) Amendment Act*] i rym ym mis Mehefin 2007. Roedd effaith y Ddeddf wedi'i monitro gan yr Heddlu dros gyfnod o bum mlynedd hyd at fis Mehefin 2012.

Yn ystod y cyfnod adolygu o bum blynedd, cafwyd 8 erlyniad am 'smacio' a 55 achos o "*minor acts of physical discipline*". Roedd Heddlu Seland Newydd wedi ymdrin â 3,602 o achosion. O'r rheini:

- roedd 143 ohonynt yn ymwneud â 'smacio' (slap gan ddefnyddio llaw agored ar y pen-ôl neu'r coesau nad yw'n arwain at unrhyw fath o anaf);
- roedd 435 ohonynt yn ymwneud â mân weithredoedd o ddisgyblu corfforol ["*minor acts of physical discipline*"], (slap gan ddefnyddio llaw agored ar unrhyw ran arall o'r corff (gan gynnwys yr wyneb) nad yw'n arwain at unrhyw fath o anaf); a
- roedd 2674 ohonynt yn ymwneud ag 'ymosodiad ar blentyn' (unrhyw fath o ymosodiad (o slap â llaw agored i daro â theclyn) sy'n arwain at anaf (gan gynnwys gwneud i'r croen fynd yn goch a chleisiau). *Mae'r diffiniad yn awgrymu y byddai hynny eisoes yn drosedd o dan ddeddfwriaeth bresennol y DU.*

Nid yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu cyfanswm nifer yr achosion o ymosod ar blant y mae'r Heddlu yn ymdrin â nhw. Mae'r duedd gyffredinol a welwyd yn dilyn yr adolygiad cyntaf (Mehefin 2007) hyd at yr 11eg adolygiad (Mehefin 2012) yn dangos cynnydd yn nifer yr adroddiadau a gafodd yr heddlu a oedd yn ymwneud ag 'ymosod ar blant', a rhywfaint o gynnydd yn nifer yr achosion o 'smacio' ac o fân weithredoedd o ddisgyblu corfforol.

**Amcangyfrifon o erlyniadau yng Nghymru**

Yn niffyg unrhyw ddata dibynadwy er mwyn amcangyfrif nifer yr erlyniadau a allai ddigwydd yng Nghymru o ganlyniad i'r newid deddfwriaethol, gall y data o Seland Newydd gael eu defnyddio fel procsi. Rydym yn pwysleisio mai amcangyfrifon yw'r amcangyfrifon a ddarperir yn y papur hwn. Rhaid bod yn ofalus mewn perthynas â gwneud tybiaethau pendant ac amcanestyniadau o gost ar sail yr amcangyfrifon hyn.

Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar y cyfrifiad bod gan Gymru tua 60% o nifer y plant 0-14 oed o'i chymharu â Seland Newydd. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Ystyr MAPD isod yw 'Minor Act of Physical Discipline'.

| Y math o ddigwyddiad | Blwyddyn 1af a'r 2il un ar ôl i'r ddeddfwriaeth gychwyn | Y 3edd a'r 4edd flwyddyn ar ôl i'r ddeddfwriaeth gychwyn | Y 5ed flwyddyn ar ôl i'r ddeddfwriaeth gychwyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ffigur Smacio Seland Newydd | 0 | 2 | 2 | **4** |
| MAPD Ffigur Seland Newydd | 8 | 11 | 14 | **33** |
| **Cyfanswm** | **8** | **13** | **16** | **37**[1] |
| | | | | |

Gweler Atodiad 6 o'r Memorandwm Esboniadol i gael gwybodaeth bellach, gan gynnwys cafeatau sy'n ei gwneud yn glir er bod rhywfaint o debygrwydd â Chymru, mae gan Seland Newydd awdurdodaeth ar wahân, sy'n cynnwys fframwaith cyfreithiol gwahanol a system cyfiawnder troseddol wahanol. Er bod Seland Newydd wedi cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol tebyg (grym rhesymol), mae'r gyfraith yn wahanol yno i'r hyn a gynigir yng Nghymru, ac mae'r holl fecanweithiau sy'n cefnogi'r broses weithredu a gorfodi yn wahanol i'r rheini sydd ar gael yng Nghymru. Yn ychwanegol, mae gan Seland Newydd hanes, diwylliant, gwerthoedd a normau cymdeithasol gwahanol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau am yr hyn sy'n addas mewn perthynas ag ymddygiad rhianta ac a ddylid atal cosbi plant yn gorfforol neu gadw at yr hyn sydd eisoes yn bodoli.

[1] Gan fod y ffigur hwn wedi'i seilio ar amcangyfrifon a dalgrynwyd ar gyfer Cymru, nid yw'n cyfateb i 60% yn union o gyfanswm cyfatebol ar gyfer Seland Newydd.

- Mae amcangyfrif Llywodraeth Cymru o'r 37 achos dros 5 mlynedd wedi'i seilio ar yr hyn sydd wedi'i weld yn Seland Newydd. Ond, nid yw'n glir faint o'r achosion hynny yn Seland Newydd na fyddai wedi digwydd pe na bai'r newid deddfwriaethol wedi digwydd. Yn ogystal, trosedd ddiannod yn unig yw hon, ac mae'n glir y byddai'r costau'n bitw. Yn ychwanegol, oherwydd yr ymrwymiad i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith, mae'n debygol iawn y byddai gwybodaeth gyhoeddus wedi cynyddu ar ôl pum mlynedd. A hynny i'r graddau y byddai rhieni'n ymwybodol bod pob math o weithred o gosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithiol – ac felly byddai nifer yr achosion yn debygol o leihau.
- Mewn perthynas ag incwm achosion troseddol, mae cyfran yr achosion o ymosod cyffredin a churo sy'n arwain at ddirwy yn fach, felly ni fyddai'n cael effaith wirioneddol ar incwm o'r fath. Ac mewn perthynas â dedfrydu ar gyfer troseddau cyfraith trosedd, nid oes unrhyw effaith wirioneddol, gan nad oes unrhyw newid arfaethedig i'r cosbau cyfredol.
- O ran cyfiawnder sifil, nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r systemau rheoli a gorfodi, felly nid oes unrhyw effaith wirioneddol mewn perthynas â'r weithdrefn sifil a chamau gorfodi. Nid oes unrhyw effaith ychwaith ar y Llysoedd mewn perthynas â systemau TG troseddol, gorfodaeth droseddol, materion sifil a theuluol, Tribiwnlysoedd, Polisi Troseddwyr, dadansoddwyr sifil a Chyfiawnder Gweinyddol.
- Mae Deddf Plant Cymru'n gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu a chyhoeddi adroddiad interim 3 blynedd ac adroddiad llawn 5 mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Fel rhan o'r adolygiad hwn bwriedir cynnal nifer o weithgareddau monitro a gwerthuso. Mae'r rhain yn cynnwys monitro'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus, lefelau ymwybyddiaeth, a newidiadau mewn agweddau. Mae gwaith wedi dechrau, drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro, i ddatblygu dulliau ar gyfer casglu data ar draws sefydliadau (yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM) i fonitro effeithiau'r ddeddfwriaeth ar wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill.

Ydych chi'n disgwyl i'r achosion gael gwrandawiad mewn Llys Ynadon, Llys y Goron neu Lys Sifil? Beth fydd y cyfrannau?

Gan fod ymosod cyffredin a churo yn droseddau diannod, rydym yn disgwyl i'r mwyafrif o'r achosion sy'n cael eu dwyn ger bron y llys gael eu cynnal mewn Llys Ynadon. Fodd bynnag, os bydd gofynion adran 40 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn cael eu bodloni, yna gall Ymosod Cyffredin gael ei gynnwys fel cyhuddiad o drosedd dditiol. Yn yr achosion hynny, gall troseddau ymosod a churo gael eu rhoi ar dreial yn Llys y Goron.

1.14. Nodwch uchafswm y ddirwy a/neu gosbau o garchar perthnasol. Pan fo troseddau yn cynnwys cosbau o ddirwy neu gyfnod yn y carchar, nodwch ac eglurwch yr amgylchiadau a fyddai'n arwain at ddedfryd o garchar wedi'r euogfarn a chyfran y cosbau o garchar a fydd ar y lefel uchaf bosibl.

Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022 ni fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael o hynny ymlaen ar gyfer rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod neu guro yng Nghymru.

Mae Adran 39 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn darparu y bydd ymosod cyffredin a churo'n droseddau diannod ac y bydd person sy'n euog o'r naill neu'r llall ohonynt yn agored i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol, cyfnod yn y carchar heb fod yn fwy na chwe mis, neu'r ddau.

Ni fwriedir na ddisgwylir i'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y troseddau sy'n cael eu herlyn. Mae ein trafodaethau â Gwasanaeth Erlyn y Goron yn awgrymu o ran lefel y troseddu sy'n cael ei thrafod y gallai'r heddlu ystyried y gellid bodloni budd y cyhoedd drwy ei datrys y tu allan i'r llys. Rydym yn gweithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu cynllun dargyfeirio addas a allai ddarparu ymwyriadau i gefnogi newid mewn ymddygiad a dargyfeirio unigolion i ffwrdd o erlyniad (lle bo'n briodol).

Pe byddai unigolyn yn cael ei erlyn, byddai'r ddedfryd yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, yr unigolyn ac a oes gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau troseddol blaenorol.

Mae canllawiau cyfredol Cyngor Canllawiau Dedfrydau, sef 'Overarching Principles: Sentencing Guidelines relating to assaults on children and cruelty to a child' yn cynnig y cyngor canlynol:

"*In considering whether a custodial sentence is the most appropriate disposal for an offence of assault on a child the court should take into account any available information concerning the future care of the child.*"

Mae canllaw Cyngor Canllawiau Dedfrydau, sef 'Imposition of Community and Custodial Sentences Definitive Guideline' yn cynnig y cyngor canlynol:

"*A custodial sentence must not be imposed unless the offence or the combination of the offence and one or more offences associated with it was so serious that neither a fine alone nor a community sentence can be justified for the offence.*

*There is no general definition of where the custody threshold lies. The circumstances of the individual offence and the factors assessed by offence-specific guidelines will determine whether an offence is so serious that neither a fine alone nor a community sentence can be justified.*

*Where no offence specific guideline is available to determine seriousness, the harm caused by the offence, the culpability of the offender and any previous convictions will be relevant to the assessment.*

*The clear intention of the threshold test is to reserve prison as a punishment for the most serious offences.*"

- Er bod amcangyfrif o tua 8 o achosion yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, mae'n annhebyg y byddant yn arwain at ddedfryd o garchar oherwydd natur y troseddau a'r amgylchiadau sy'n ymwneud â nhw, felly rydym yn rhagweld na fydd unrhyw effaith ar Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.
- Mewn perthynas ag incwm achosion troseddol, mae cyfran yr achosion o ymosod cyffredin a churo sy'n arwain at ddirwy yn fach, felly ni fyddai'n cael effaith wirioneddol ar incwm o'r fath. Ac mewn perthynas â dedfrydu ar gyfer troseddau cyfraith trosedd, nid oes unrhyw effaith wirioneddol, gan nad oes unrhyw newid arfaethedig i'r cosbau cyfredol.
- O ran cyfiawnder sifil, nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r systemau rheoli a gorfodi, felly nid oes unrhyw effaith wirioneddol mewn perthynas â'r weithdrefn sifil a chamau gorfodi. Nid oes unrhyw effaith ychwaith ar y Llysoedd mewn perthynas â systemau TG troseddol, gorfodaeth droseddol, materion sifil a theuluol, Tribiwnlysoedd, Polisi Troseddwyr, dadansoddwyr sifil a Chyfiawnder Gweinyddol.

1.15. Rhowch fanylion unrhyw brocsi neu droseddau a / neu gosbau presennol y mae'r cosbau arfaethedig yn seiliedig arnynt.

| |
|---|
| Gweler yr ateb i 3.15. |

1.16. Rhowch fanylion y ddeddfwriaeth berthnasol (lle bo hynny'n briodol) a chadarnhewch a gytunwyd ar greu neu ddiwygio troseddau a chosbau yn unol â'r canllawiau sydd ar gael yma https://www.gov.uk/government/publications/making-new-criminal-offences.

Nid yw Deddf Plant Cymru yn cynnwys creu trosedd newydd. Mae'r amddiffyniad o gosb resymol yn berthnasol i droseddau o ymosod cyffredin a churo sydd eisoes yn bodoli yn unig. Ni fyddai'r cosbau cyfredol am droseddau ymosod cyffredin a churo yn newid felly.

Ni fwriedir na ddisgwylir i'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y troseddau sy'n cael eu herlyn yn y llysoedd.

Bydd Deddf Plant Cymru hefyd yn dileu amddiffyniad cosb resymol dan y gyfraith sifil, ond nid ystyrir y bydd hynny'n cael unrhyw effaith mewn perthynas ag achosion sifil.

1.17. Beth fydd y goblygiadau tymor byr, tymor canolig a gydol oes i unigolyn a gaiff ei ganfod yn euog o'r drosedd hon, a sut y mae hyn yn gymesur â'r drosedd a grëwyd?

Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022 ni fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael o hynny ymlaen ar gyfer rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod neu guro yng Nghymru. Mae'r modd y bydd yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd yn ymateb i hynny yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, yr unigolyn a'r plentyn, ac a oes gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau troseddol blaenorol. Gweler hefyd yr ateb i 3.15.

Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr yn caniatáu i'r rhan fwyaf o euogfarnau a phob rhybuddiad, cerydd a rhybudd olaf gael eu hystyried eu bod wedi'u disbyddu ar ôl cyfnod penodol. Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr yn rhoi'r hawl gyfreithiol i bobl ag euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion olaf sydd wedi'u disbyddu, beidio â'u datgelu pan fyddant yn gwneud cais am y rhan fwyaf o swyddi a chyrsiau ac at ddibenion yswiriant.

Bydd euogfarnau bob amser yn ymddangos ar gofnodion yr heddlu, ond mae'n bosibl na fydd euogfarn yn ymddangos drwy broses wirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd hynny'n dibynnu ar y canlynol:

1. Y math o wiriad y bydd yr unigolyn yn gwneud cais amdano;
2. A yw'r euogfarn wedi'i disbyddu o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr; a
3. A yw'r euogfarn yn gymwys i gael ei ffiltro o dystysgrifau safonol neu fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

O dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, mae rhybuddiadau'n cael eu disbyddu'n syth ac felly ni fyddant yn cael eu datgelu drwy wiriad sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, byddant yn cael eu datgelu ar wiriadau safonol a manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd oni bai eu bod yn gymwys i gael eu ffiltro.

Mae ffiltro'n golygu bod rhai mân droseddau'n cael eu dileu neu eu 'ffiltro' o wiriadau safonol neu fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bellach, nid oes angen i ymgeisydd am swydd ddatgelu troseddau sy'n gymwys i gael eu ffiltro, os yw'n gwneud cais am swydd sy'n gofyn am wiriadau safonol neu fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (nid yw ffiltro'n berthnasol i swyddi sydd wedi'u hesemptio rhag y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, ond nad oes angen gwneud gwiriad drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, e.e. swyddi'r heddlu). Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn darparu rhestr o droseddau na fydd byth yn cael eu ffiltro o wiriad cofnodion troseddol. Mae hynny'n cynnwys "*Any offence of assault or indecent assault on a child*".

O ran gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae'n bosibl y gall achosion a gofnodwyd ar gofnod yr heddlu o ddigwyddiadau fel *'No Further Action*' (NFA), gael eu datgelu, ond ni chânt eu datgelu'n awtomatig. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai patrwm o nifer o NFAs tebyg yn cael eu datgelu, ond efallai na fydda NFA unigol. Byddai swyddog y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn edrych ar y rhesymau sy'n ymwneud â'r digwyddiad a'r rheswm dros asesiad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a byddai wedyn yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid datgelu neu beidio. Mae swyddogion yn dilyn Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a ddatblygwyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wrth wneud y penderfyniadau hynny.

I gael fisa i deithio i Awstralia, Gwlad Belg, Canada, Seland Newydd, De Affrica neu Unol Daleithiau America, mae angen i unigolion wneud cais am Dystysgrif yr Heddlu. Bydd y tystysgrif yn cynnwys manylion am bob rhybuddiad ac euogfarn oni bai eu bod yn gymwys i gael eu hildio. Gan ddibynnu ar natur y drosedd, gallai'r ffaith bod rhybuddiad wedi'i ddatgelu arwain at wrthod rhoi fisa.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw y dylai hawliau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael eu hyrwyddo a'u parchu er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial. Yr unig ffordd i gydymffurfio'n llawn ag Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yw drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol, ac yng Nghymru mae hynny'n golygu cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol.

Fel y nodwyd yn 1.7 (a) byddwn yn codi ymwybyddiaeth o’r newid yn y gyfraith yn arwain at gychwyn y ddeddfwriaeth, ac am gyfnod wedyn. Ein bwriad yw bydd negeseuon cyfathrebu'n ffocysu ar hysbysu'r cyhoedd am y ddeddfwriaeth a'i heffaith bosibl. Mae Deddf Plant Cymru yn rhan o becyn llawer ehangach o gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi rhieni, fel y nodwyd yn gynharach.

1.18. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gosod unrhyw ddyletswydd ar y sector cyhoeddus? Os ydyw, darparwch eich asesiad o ba mor debygol ydyw i unigolion neu fusnesau weithredu yn erbyn y sector cyhoeddus am beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

Nac ydyw

## 2. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru

### Amcangyfrif o'r newid i lwyth achosion y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (gan gynnwys tribiwnlysoedd datganoledig)

2.1. A ydych chi'n disgwyl unrhyw newid i broses y Llysoedd neu'r Tribiwnlysoedd, neu gynnydd / gostyngiad yn nifer y ceisiadau / achosion i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a / neu Dribiwnlysoedd Cymru wrth greu neu ddiwygio'r gyfraith hon? Darparwch amcangyfrif o'r newid i nifer yr achosion fydd yn mynd drwy system y llysoedd yn gyffredinol, eglurwch unrhyw newidiadau i'r broses ac amlinellwch y dystiolaeth a'r ffynonellau sy'n cefnogi'r amcangyfrif hwn.

Ni ddisgwylir i'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y troseddau sy'n cael eu herlyn ac rydym yn disgwyl y bydd cynnydd bach iawn yn nifer yr achosion yn Llysoedd Ei Mawrhydi. Gweler hefyd yr ateb i 3.15.

- Er bod amcangyfrif o tua 8 o achosion yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, mae'n annhebyg y byddant yn arwain at ddedfryd o garchar oherwydd natur y troseddau a'r amgylchiadau sy'n ymwneud â nhw, felly rydym yn rhagweld na fydd unrhyw effaith ar Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.
- Mewn perthynas ag incwm achosion troseddol, mae cyfran yr achosion o ymosod cyffredin a churo sy'n arwain at ddirwy yn fach, felly ni fyddai'n cael effaith wirioneddol ar incwm o'r fath. Ac mewn perthynas â dedfrydu ar gyfer troseddau cyfraith trosedd, nid oes unrhyw effaith wirioneddol, gan nad oes unrhyw newid arfaethedig i'r cosbau cyfredol. Trosedd ddiannod yn unig yw hon, a'r gosb uchaf yw dirwy, sy'n adlewyrchu cosbau sydd eisoes yn bodoli o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Lloegr) 2015.
- O ran cyfiawnder sifil, nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r systemau rheoli a gorfodi, felly nid oes unrhyw effaith wirioneddol mewn perthynas â'r weithdrefn sifil a chamau gorfodi. Nid oes unrhyw effaith ychwaith ar y Llysoedd mewn perthynas â TG troseddol, gorfodaeth droseddol, materion sifil a theuluol, Tribiwnlysoedd, Polisi Troseddwyr, dadansoddwyr sifil a Chyfiawnder Gweinyddol.

2.2. Cadarnhewch a fyddai'r llysoedd / tribiwnlysoedd o dan ddyletswydd i roi gwybod i awdurdodau rheoleiddio am unrhyw euogfarnau o dan y drosedd hon.

☒ Na fyddent
☐ Byddent (rhowch fanylion)

**Hawliau Apelio**

2.3. A yw eich cynnig yn creu hawl newydd i apelio neu'n ymestyn awdurdodaeth bresennol yn y System Tribiwnlysoedd Unedig neu'r llwybr tuag at adolygiad barnwrol? Os ydyw, pwy fydd yn mynd i'r afael â'r rhain (hy a fyddant yn cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi neu gan Dribiwnlysoedd Cymru)?

| |
|---|
| Nac ydyw |

2.4. A ydych yn disgwyl sefydlu awdurdodaeth tribiwnlysoedd newydd? Os felly, a yw hyn wedi'i drafod ag Uned Tribiwnlysoedd Cymru / y Weinyddiaeth Gyfiawnder?

| |
|---|
| Nac ydyn |

**Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod**

2.5. I ba raddau y byddai'n briodol defnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod (gan gynnwys cyfryngu)? Sut y bydd modd mesur llwyddiant y dull amgen hwn?

| |
|---|
| Amherthnasol |

**Erlyn a Gorfodi**

2.6. Os ydych yn cynnig creu trosedd newydd, a fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn diffynyddion? Os na, nodwch pwy fydd yn erlyn.

| |
|---|
| Nid yw Deddf Plant Cymru yn cynnwys creu trosedd newydd. Mae'r amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol i droseddau o ymosod cyffredin a churo sydd eisoes yn bodoli yn unig. |

2.7. A oes angen systemau gorfodi ar gyfer dyledion sifil, sancsiynau sifil neu gosbau troseddol ar gyfer y cynnig? Os oes, pwy ydych yn disgwyl y bydd yn eu gorfodi?

| |
|---|
| Ni fyddai'r gallu i gael hawliad sifil yn newid fel canlyniad i Ddeddf Plant Cymru. |

**Rheolau Gweithdrefnol, Canllawiau Cosbau a Dedfrydu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi**

2.8. Ydych chi'n rhagweld y bydd rhaid diwygio rheolau gweithdrefnol y Llysoedd a/neu'r Tribiwnlysoedd? Os ydych, beth yw'r dyddiad tebygol ar gyfer y newidiadau hyn?

| |
|---|
| Mae'n annhebyg y bydd Deddf Plant Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i newid rheolau gweithdrefnol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. |

2.9. A fydd angen diwygio'r canllawiau dedfrydu a / neu gosbau ar gyfer y cynigion?

| |
|---|
| Rydym yn rhagweld y byddai Deddf Plant Cymru yn newid canllawiau ar ddedfrydu a / neu ar gosbau. |

## 3. Cymorth Cyfreithiol a Ffioedd Llys

3.1. Pa dystiolaeth sydd y bydd modd i'r unigolion y mae’r cynnig yn effeithio arnynt fforddio:

a) cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol er mwyn i'w hachos gael gwrandawiad teg

b) ffioedd llys cysylltiedig

Pa gostau cyfreithiol a allai fod yn daladwy gan bob parti mewn achos cyffredin, a pha ddarpariaethau sy'n bodoli i barti sy'n cael ei ganfod yn ddieuog adennill yr holl gostau cyfreithiol neu ran o'r costau hynny?

---

Y rheini sy'n cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth yw rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod disgyblu corfforol yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio i ddisgyblu plant 1-5 oed. Er ei bod yn sampl fach, canfu ein gwaith ymchwil ar agweddau rhieni plant 6 oed neu'n iau tuag at reoli ymddygiad plant ifanc dystiolaeth annigonol i awgrymu'r canlynol:

- bod oedran, cenedl neu statws priodasol y rhiant yn gysylltiedig ag adrodd am smacio;
- bod lefel amddifadedd yr ardal y mae rhieni'n byw ynddi, neu eu cyrhaeddiad addysgol, yn gysylltiedig ag adrodd am smacio.

Achosion sifil (annhroseddol)

I gael cymorth cyfreithiol, fel arfer byddai angen i unigolyn ddangos nad yw'n gallu fforddio talu am gostau cyfreithiol a bod y broblem yn un ddifrifol.

Achosion troseddol

Mae gan unigolyn yr hawl i gyngor cyfreithiol am ddim os caiff ei gwestiynu mewn gorsaf heddlu.

Mae unigolyn yn cael cymorth cyfreithiol yn awtomatig ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol mewn llys os ydynt yn iau na 16 oed (neu’n iau na 18 oed ac mewn addysg amser llawn), neu yn derbyn budd-daliadau penodol.

Os bydd incwm isel gan unigolyn ac mae ei achos yn un difrifol (mae wedi'i gyhuddo o drosedd a gallai fynd i'r carchar), mae'n bosibl y câi gymorth cyfreithiol i dalu am rywfaint o'r costau cyfreithiol os nad yr holl gostau.

Mae ymosod cyffredin a churo yn droseddau diannod, a byddent yn y mwyafrif helaeth o achosion yn cael gwrandawiad mewn llys ynadon. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi bwletin ar ystadegau cymorth cyfreithiol sy'n cyflwyno ystadegau ar y cynllun cymorth cyfreithiol sy'n cael ei weinyddu gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn 2016/17 cafwyd 118,021 o geisiadau yng Nghymru a Lloegr am gymorth cyfreithiol ar gyfer troseddau diannod a gafodd wrandawiad yn llys yr ynadon. O'r rheini, roedd 110,012 ohonynt wedi cael cymorth cyfreithiol. Nodwch fod y ffigurau hyn yn cynnwys amrywiaeth o droseddau diannod yn unig. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth ynghylch a yw'r unigolion yng Nghymru neu yn Lloegr, nac ychwaith ynghylch natur penodol y drosedd y mae'r cymorth cyfreithiol yn gysylltiedig â hi.

Opsiynau eraill yn lle cymorth cyfreithiol:

Os na all unigolyn gael cymorth cyfreithiol, efallai y gallai gael cyngor am ddim gan y canlynol:
• Law Works
• Cyngor ar Bopeth – cyngor ar broses y llys a chyfeirio pobl at gyngor pellach

• AdviceNow

Ffioedd llysoedd
Mae'n bosibl y gall unigolion ar incwm isel, neu sy'n derbyn budd-daliadau penodol ac nad oes llawer o gynilion ganddynt, gael gostyngiad ar ffi'r llys.

3.2. Pan fydd eich cynnig ar waith, a yw'n debygol y bydd angen i unigolion geisio cyngor cyfreithiol a gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn unrhyw un o'r meysydd canlynol? Darparwch dystiolaeth ategol ym mhob achos.

☒ Troseddol
☒ Sifil (gan gynnwys Teuluoedd)
☐ Lloches
☐ Dim cymorth cyfreithiol ar gael (darparwch dystiolaeth ategol)

Mae Deddf Plant Cymru yn berthnasol i droseddau ymosod cyffredin a churo sydd eisoes yn bodoli. Mae gan unigolion yr hawl i gyngor cyfreithiol am ddim os ydynt yn cael eu cwestiynu mewn gorsaf heddlu. Yn ôl gwefan Llywodraeth y DU 'Gov.UK', os bydd unigolion wedi'u cyhuddo o drosedd, gallant ofyn i'w cyfreithiwr neu fargyfreithiwr os gallant gael cymorth cyfreithiol troseddol. Ni chânt benderfyniad terfynol hyd nes iddynt siarad â chynghorydd.

Ni fyddai'r gallu i gael hawliad sifil yn newid fel canlyniad i Ddeddf Plant Cymru. I gael cymorth cyfreithiol, fel arfer byddai angen i unigolyn ddangos nad yw'n gallu fforddio talu am gostau cyfreithiol a bod y broblem yn un ddifrifol.

3.3. Os bydd unrhyw effaith ar gymorth cyfreithiol, a fyddai costau'r cymorth hwn yn cynyddu neu'n gostwng (ac o faint)?

Mae'n bosibl y bydd effaith ar gymorth cyfreithiol, ond rydym yn rhagweld y bydd hynny'n debygol o fod yn effaith fach sy'n gysylltiedig â chymorth cyfreithiol troseddol yn sgil dileu amddiffyniad 'cosb resymol' mewn perthynas â throseddau ymosod cyffredin ar blant a'u curo. Mae ein hamcanestyniad yn adlewyrchu'r maint ychwanegol o erlyniadau a amcangyfrifir, gan ddefnyddio model Seland Newydd fel procsi - ac mae'n dangos y canlynol:

- Blynyddoedd 1 a 2 – 8 erlyniad
- Blynyddoedd 3 a 4 – 13 erlyniad
- Blwyddyn 5 – 16 erlyniad

Cyfanswm = 37 erlyniad

Rhagwelir y bydd y mwyafrif helaeth o'r erlyniadau hynny'n cael eu cynnal yn Llys yr Ynadon, er nad oes unrhyw raniad ffurfiol wedi'i gynnig rhwng Llys yr Ynadon a Llys y Goron. At ddibenion ein cyfrifiad isod, rydym yn tybio y bydd rhaniad 75/25. Gan ystyried y canlynol: costau unedol cyfartalog Llys yr Ynadon o £400 yr achos, a 50% o holl ddiffynyddion Llys yr Ynadon yn pasio prawf modd; a chostau unedol cyfartalog Llys y Goron o £5,800 a phob diffynnydd yn gymwys. Amcangyfrifir y bydd y costau dros gyfnod o 5 mlynedd yn llai na £70,000.

Fodd bynnag, o ystyried ansicrwydd mesurau procsi o'r fath (a'r rhaniad a dybir rhwng Llys y Goron a Llys yr Ynadon), gallai'r rhagolygon fod yn uwch neu'n is na'r amcangyfrif hwn.

Cymorth Cyfreithiol Sifil
Yn ychwanegol, gellid gweld effaith ar gymorth cyfreithiol sifil mewn egwyddor, o ystyried y gallai'r cymorth sicrhau i'r achosion hynny gael eu dwyn ger bron llys / lwyddo. Fodd bynnag, byddai'r effaith honno'n un fach iawn o ystyried nifer y bobl sy'n cael cymorth ariannol am ymosod cyffredin o dan yr amgylchiadau hynny, a byddai lefel debygol yr iawndal yn eithaf isel. Yn ogystal, rydym yn tybio na fyddai bodolaeth yr amddiffyniad o reidrwydd yn rhwystr rhag dechrau'r broses ymgyfreitha ar hyn o bryd, er y byddai'r achos yn canolbwyntio ar benderfynu a oedd y gosb yn "rhesymol". Felly, rydym o'r farn y gellid cael effaith bosibl ar gymorth cyfreithiol sifil, ond nid oes modd mesur yr effaith ac mae'n debygol o fod yn un fach iawn beth bynnag.

## 4. Y Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Charchardai

### Effaith ar Wasanaethau Carchardai Ei Mawrhydi

4.1. A fydd y cynigion yn newid nifer y troseddwyr sy'n cael eu cadw yn y carchar (gan gynnwys ar remánd) neu ar gyfnod prawf (gan gynnwys dedfrydau cymunedol)? Os felly, rhowch amcangyfrif ynghyd â'r rhesymau dros yr amcangyfrif hwn, amcan o'r amserlen ar gyfer cyrraedd y nifer hwn o ddedfrydau, y dystiolaeth sy'n sail i hyn a ffynhonnell eich gwybodaeth.

Mae Adran 39 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn darparu y bydd ymosod cyffredin a churo'n droseddau diannod ac y bydd person sy'n euog o'r naill neu'r llall ohonynt yn agored i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol, cyfnod yn y carchar heb fod yn fwy na chwe mis, neu'r ddau.

Oherwydd lefel y troseddu sy'n cael ei thrafod, ni ddisgwylir i'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd *sylweddol* yn nifer y troseddau sy'n arwain at ddedfryd o garchar.

Mae canllawiau cyfredol Cyngor Canllawiau Dedfrydau, sef 'Overarching Principles: Sentencing Guidelines relating to assaults on children and cruelty to a child' yn cynnig y cyngor canlynol:

"*In considering whether a custodial sentence is the most appropriate disposal for an offence of assault on a child the court should take into account any available information concerning the future care of the child*."

Mae Cyngor Canllawiau Dedfrydu yn cynnig y canllawiau canlynol:

"*A custodial sentence must not be imposed unless the offence or the combination of the offence and one or more offences associated with it was so serious that neither a fine alone nor a community sentence can be justified for the offence*."

Ar hyn o bryd, ni chyhoeddwyd unrhyw ystadegau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n darparu gwybodaeth am nifer yr achosion o erlyn rhiant am ymosod cyffredin (pan fo'r rhiant wedi defnyddio amddiffyniad cosb resymol). Mae'r ystadegau'n cynnig gwybodaeth am y drosedd 'Trais yn erbyn y person'. Mae'r categori eang hwnnw'n cynnwys nifer o wahanol droseddau, gan gynnwys dynladdiad, trais ag anaf a thrais heb anaf. Nid yw'r data hynny wedi'u dadansoddi i ddangos faint o'r achosion hynny oedd yn "Ymosodiad heb anaf", ac a oedd y dioddefwr yn blentyn. (Ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder).

Rydym yn rhagweld y byddai effaith fach iawn neu ddim effaith o gwbl yn y maes canlynol:

- Er bod amcangyfrif o tua 8 o achosion y flwyddyn yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae'n annhebyg y byddant yn arwain at ddedfryd o garchar oherwydd natur y troseddau a'r amgylchiadau sy'n ymwneud â nhw, felly rydym yn rhagweld na fydd unrhyw effaith ar Wasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

4.2. A yw'r cynnig yn creu, yn dileu neu'n newid trosedd bresennol â dedfryd o garchar neu gyfnod prawf, neu'n newid hynt y troseddwyr drwy'r gwasanaeth carchardai / prawf? Os ydyw, rhowch fanylion, gan gynnwys yr effaith ddisgwyliedig ar y gwasanaethau prawf.

Nac ydyw

5. **Nodi'r Prif Effeithiau ar y System Gyfiawnder**

5.1. **Niferoedd a Chostau neu Arbedion (gallwch ymestyn yn ôl yr angen):-**
DS ym mhob achos, dylech dybio ffigur blynyddol cyfartalog neu nodi'n glir os ydych yn ystyried cyfnod amser gwahanol. Os yw'n bosibl y byddai gwahaniaeth mawr rhwng y nifer cyfartalog ar gyfer y blynyddoedd cyntaf, nodwch wybodaeth ychwanegol yn y nodiadau isod.

| **Nodwch y llys neu'r tribiwnlys, neu wasanaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt.** | **Niferoedd** (rhowch amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) | **Math** (e.e. lle yn y carchar, gwrandawiad y tribiwnlys, cosb benodedig ac ati) | **Amcangyfrif o'r costau neu'r arbedion blynyddol rheolaidd** (amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) (£) | **Amcangyfrif o'r costau sefydlu cychwynnol (£)** | **Gwybodaeth Ychwanegol** |
|---|---|---|---|---|---|
| Troseddau a Sancsiynau | Fel sydd wedi'i amlinellu yn 3.13 ac yn 6.1, mae'n anodd darogan nifer yr achosion. Nid ydym yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn nifer y dedfrydau o garchar. | Datrysiadau y tu allan i'r Llys | | | |
| | | Dirwy | | | |
| | | Lle yn y carchar | | | |
| Cosbau Sifil | Dibwys | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi | Fel sydd wedi'i amlinellu yn 3.13 ac yn 6.1, mae'n anodd darogan nifer yr achosion | | | | |
| | | | | | |
| Tribiwnlysoedd Cymru | Amherthnasol | | | | |

| **Nodwch y llys neu'r tribiwnlys, neu wasanaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt.** | **Niferoedd** (rhowch amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) | **Math** (e.e. lle yn y carchar, gwrandawiad y tribiwnlys, cosb benodedig ac ati) | **Amcangyfrif o'r costau neu'r arbedion blynyddol rheolaidd** (amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) (£) | **Amcangyfrif o'r costau sefydlu cychwynnol (£)** | **Gwybodaeth Ychwanegol** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Cyfreithiol | Fel sydd wedi'i amlinellu yn 3.13 ac yn 6.1, mae'n anodd darogan nifer yr achosion | | | | |
| Nodiadau:- | | | | | |

**5.2. Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Charchardai (gallwch ymestyn yn ôl yr angen, llenwch yr isod dim ond os nad yw'r gosb uchaf yn ddirwy):**

| **Trosedd** | **Cosb Uchaf** | **Nifer yr erlyniadau y flwyddyn (amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm)** | **Y gyfran debygol fydd yn cael dedfryd o garchar yn syth** | **Hyd cyfartalog y ddedfryd o garchar a roddir** | **Amcangyfrif o'r costau neu'r arbedion y flwyddyn (£) (£)**[2] (rhowch amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymosod a churo | 6 mis | | | | |
| | | | | | |
| Nodiadau: | | | | | |

**Cofiwch fod rhaid i unrhyw gostau neu arbedion a nodwyd o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r system gyfiawnder / gwaith ychwanegol gael eu cynnwys yn yr asesiad ariannol o'ch deddfwriaeth.**

[2] Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ystadegau ar “Prison cost per place and cost per prisoner:” – gweler https://www.gov.uk/government/statistics/announcements/prison-cost-per-place-and-cost-per-prisoner-2017-to-2018